[redacted]

27ain Awst 2015

Annwyl Mr Drakeford

**Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)**

Ysgrifennaf atoch parthed y Bil uchod.

Nodaf fod Adran 6 y Bil yn ymestyn y diffiniad o "weithle" i gynnwys annedd a ddefnyddir fel gweithle gan un person yn unig, ac y gwaherddir ysmygu yn y rhan o'r annedd a ddefnyddir fel gweithle yn ystod oriau gwaith. Nodaf hefyd fod Adran 10 yn darparu y gall Gweinidogion Cymru benderfynu ar eithriadau.

Nid yw Memorandwm Esboniadol y Llywodraeth yn egluro mwy am y ddarparieth hon, ond fe ddarllenais hefyd lythyr y Llywydd i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol (http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s41902/HSC4-20-15ptn%202%20gohebiaeth%20gan%20y%20Llywydd.pdf) lle y mae'n mynegi y gall fod oblygiadau o ran hawliau dynol i gyfyngu ar ysmygu yn y cartref cyfan pan fod rhan ohono yn cael ei ddefnyddio at ddibenion gwaith.

Yn wyneb hyn, ysgrifennaf i holi a allech esbonio beth fyddai'r sefyllfa o ran clerigion sydd yn gweithredu o ficerdy neu fans (neu, yn wir, eu heiddo personol) sydd hefyd, felly, yn weithle. A fyddai ysmygu o fewn y mans neu ficerdy yn amhosibl, nid yn unig i'r gweinidog ond hefyd i'w deulu ac ymwelwyr personol, yn ystod ei oriau gwaith? Gan fod oriau gwaith gweinidog yn anniffinadwy, a bod y mans neu ficerdy cyfan yn cael ei ddiffinio'n weithle o ran trethiant a dibenion eraill, byddai hyn yn gyfyngiad sylweddol iawn ar ryddid yr unigolion hyn.

Os cyflwynir adran o'r math hwn yn y Ddeddf derfynol, a fyddai'n fwriad gennych i gyflwyno esemptiad dan Adran 10 i atal neu liniaru'r goblygiadau hyn yn achos clerigion?

Gan fod cyfnod ymgynghori'r Pwyllgor yn dod i ben ar 4ydd Medi 2015, achubaf ar y cyfle i ddanfon copi o'r llythyr hwn at sylw'r Pwyllgor hefyd.

Yr eiddoch yn gywir,

Gethin Rhys (Parch.)
Swyddog Polisi

 [redacted]

**At:- Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Ymateb gan Cytûn a CLAS i'r cais am dystiolaeth parthed Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)

1. Mae Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru yn cynrychioli 14 o enwadau Cristnogol yng Nghymru, sydd rhyngddynt yn cynnal y mwyafrif o glerigion Cristnogol sydd yn gwasanaethu yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae CLAS (*Churches' Legislation Advisory Service*: Elusen gofrestredig rhif 256303) yn gorff cyd-enwadol sy'n cynrychioli'r holl brif enwadau yn y Deyrnas Gyfunol a llawer o'r rhai llai o faint, ynghyd â'r Synagog Unedig, wrth ymwneud â'r llywodraeth parthed cyfreithiau a pholisïau seciwlar.

2. Mae'r papur hwn yn ymwneud ag Adrannau 6 & 7 ym Mil Iechyd y Cyhoedd (Cymru), fel y'i cyflwynwyd, sy'n ymestyn y diffiniad o 'weithleoedd' at ddibenion dynodi mangreoedd di-fwg. Rydym yn pryderu am effaith bosibl hyn ar glerigion a'u teuluoedd.

3. Disgwylir i glerigion rhan fwyaf y prif enwadau, oherwydd natur eu swyddi, fyw mewn persondy neu fans. Ymhellach, o ran trethiant ar bethau megis costau teithio mae CThEM fel arfer yn pennu mai cartref y gweinidog yw'r "gweithle" yn hytrach na'r addoldy mae ef neu hi yn ei wasanaethu – yn bennaf am y gall fod gan un gweinidog ofal bugeiliol am fwy nag un eglwys. Mae hyn yn wir hyd yn oed os yw'r clerig yn gweithio o eiddo y mae ef/hi yn berchen arno'n bersonol yn hytrach nag o dŷ clerigol ym meddiant yr eglwys.

4. Yn aml fe ddefynddir y persondy ar gyfer cyfarfodydd, cynghori bugeiliol personol, dosbarthiadau Beiblaidd, paratoi at briodasau, ac yn y blaen. Nid yw'n eglur i ni a yw hyn yn golygu bod y persondy yn "fangre" at ddibenion y diffiniad yng Nghymal 6(2)(b).

5 Mae gan y mwyafrif helaeth o bobl fan gwaith a chartref ar wahân. Nid yw clerigion yn gallu gwahaniaethu rhwng y ddau fel hyn, ac yn hynny o beth maent yn anarferol iawn. Mae rhai clerigion (a rhai aelodau o'u teuluoedd a phobl eraill sy'n byw gyda nhw) yn smygu tybaco ac yn defnyddio e-sigarennau; a rydym yn pryderu y gallai'r ddeddfwriaeth, fel y'i drafftiwyd, effeithio'n arbennig o galed ar y bobl hyn.

6. Yn gyntaf, nid yw'n gwbl eglur i ni a yw'r diffiniad yn 6(2)(b) yn cynnwys (e.e.) plwyfolyn a wahoddir yn anffurfiol i gael coffi yn ystafell fyw y teulu yn hytrach nag yn stydi/swyddfa'r gweinidog. A yw'r ystafell fyw wedyn yn cael ei chwmpasu gan y ddeddfwriaeth? Neu a fyddai'n cael ei harbed gan gymal 7(3)?

7. Yn ail, mae'r ddeddfwriaeth yn ymwneud ag e-sigarennau yn ogystal â thybaco. Fe allai peidio â chaniatáu i glerig neu aelod o'i deulu ddefnyddio e-sigarennau yn ei gartref ei hun filwrio yn erbyn symud o dybaco i ddyfais amgen llai niweidiol. Ai dyna fwriad Llywodraeth Cymru?

8. Yn drydydd, dywed Cymal 6(5) fod mangre o'r fath "ond yn ddi-fwg pan y'i defnyddir fel man gwaith." Mae'r addewidion a wneir gan glerigion wrth eu hordeinio yn holl-gynhwysol, yn cwmpasu'r bywyd cyfan. Nid oes ganddynt oriau gwaith gosodedig. Yn ôl y geiriad hwn, awgrymir bod angen i dai clerigion fod yn ddi-fwg drwy'r amser, gan y bydd y gweinidog "ar alwad" hyd yn oed pan yw'n mwynhau amser preifat gyda'i deulu.

9. Rydym yn amau mai anfwriadol yw'r canlyniadau tybiedig hyn ar gyfer clerigion a'u teuluoedd, oherwydd nid ystyriwyd sefyllfa clerigion wrth ddrafftio'r ddeddf.

10. Yn olaf, rydym yn amau a fyddai gwahardd rhywun (neu aelod o deulu'r unigolyn hwnnw) rhag ysmygu na defnyddio e-sigarét *yn ei gartref neu ei chartref ei hun* yn gwbl gydnaws ag Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (Yr hawl i barch tuag at fywyd preifat, bywyd teuluol a'r cartref). Mae Erthygl 8(2) yn caniatáu i awdurdod cyhoeddus ymyrryd â gweithredu'r hawl lle ei bod "… yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er lles diogelwch cenedlaethol, diogelwch y cyhoedd neu les economaidd y wlad, i atal anrhefn neu drosedd, neu i ddiogelu iechyd neu foesau, neu i ddiogelu hawliau a rhyddid eraill". Cymerwn y byddai Llywodraeth Cymru yn dadlau mai "i ddiogelu iechyd" y cyflwynir y gwaharddiad hwn; rydym yn amau a yw'r raddfa hon o ymyrraeth "yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd".

11. Byddem yn ddiolchgar pe gallech wrth ystyried y Bil ceisio eglurdeb parthed y mater hwn ac, os oes angen, yn cyflwyno argymhelliad priodol i'r Llywodraeth.

Manylion cyswllt:

- Parch. Gethin Rhys, Cytûn, 58 Richmond Road, Caerdydd CF24 3AT.
  [redacted]
  Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig: "Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" | Mae Cytûn yn elusen gofrestredig | Rhif: 1117071
- Frank Cranmer: Ysgrifennydd, Churches' Legislation Advisory Service, Church House, Great Smith Street, London SW1P 3AZ: [redacted] [gohebiaeth Saesneg yn unig, os gwelwch yn dda].

28ain Awst 2015.

Gellir cyhoeddi'r dystiolaeth hon yn gyfan.